



Dŵr Cymru  
Welsh Water

# Gwybodaeth am Daliadau ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)

2025-26

## Cynnwys

Diffiniad o dermau	3
1. Cyflwyniad	4
2. Sut i gysylltu â ni	5
3. Sut i dalu	5
4. Treth ar Werth	5
5. Rhestrau taliadau eraill	5
6. Methodoleg codi tâl am swmp-gyflenwad ar gyfer safleoedd nas gwasanaethir	6
7. Methodoleg codi tâl am swmp-gyflenwad ar gyfer safleoedd defnyddwyr mawr	20
7.1 Tariff diwydiannol dŵr yfadwy	20
7.2 Tariff diwydiannol dŵr anyfadwy	22
7.3 Tariff diwydiannol carthffosiaeth	22
8. Methodoleg codi tâl am swmp-gyflenwad ar gyfer safleoedd NAV o dan y meini prawf cydsynio	23
8.1 Taliadau mesuredig preswyl cyfanwerthu safonol	23
9. Rhestr taliadau ceisiadau NAV	25
9.1 Datblygiad arfaethedig	25
9.2 Dylunio peirianeg pwynt cysylltu neu ollwng	25
9.3 Modelu hydrolog	25
9.4 Arolygu cysylltiadau carthffosiaeth	25
9.5 Taliadau seilwaith	26
10. Taliadau eraill ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir	28
10.1 Darparu cyflenwad cymorth	28



### Y stori nid er elw

Dysgwch ble y caiff eich arian ei fuddsoddi yn  
[dwrwymru.com/gwahanol](http://dwrwymru.com/gwahanol)

## Diffiniad o dermau

Bydd gan y termau canlynol yr ystyron a nodir isod pan gânt eu defnyddio yn y ddogfen hon:

**Cwmni** – Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**Cwsmer** – penodiad newydd neu benodiad sydd am amrywio ei drwydded gan wneud cais NAV ar gyfer datblygiad newydd.

**Cysylltiad** – cysylltiad a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n cyflenwi gwasanaethau'r Cwmni ar gyfer y cwsmer.

**Deddf** – Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**Dŵr anyfadwy** – dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

**Dŵr gwastraff**: Carthffosiaeth neu Garthffosiaeth a Dŵr Wyneb neu Ddŵr Wyneb yn unig.

**Dŵr yfadwy** – dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

**Megalitr (Ml)**: Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig (m<sup>3</sup>)

**Meini Prawf Cydsynio**: Meini prawf ar gyfer cais NAV pan fydd y darpar NAV yn gwneud cais ar y sail bod y penodiad presennol yn cytuno i drosglwyddo'r safle i'r darpar NAV.

**Meini Prawf Defnyddiwr Mawr**: Meini prawf ar gyfer cais NAV lle mae'r darpar NAV yn gwneud cais ar y sail y bydd yn defnyddio llawer o ddŵr. Yng Nghymru mae hyn yn fwy na 250 megalitr o ddŵr y flwyddyn. Yn Lloegr mae hyn yn fwy na 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn.

**Meini Prawf Safleoedd nas Gwasanaethir**: Meini prawf ar gyfer Cais NAV lle mae'r darpar NAV yn gwneud cais ar y sail nad oes cysylltiadau prif bibellau dŵr a/neu garthffosiaeth ar y safle.

**Swmp-gyflenwadd**: Swmp-gyflenwad o ddŵr gan un cwmni dŵr penodedig i un arall neu swmp-ryddhad o ddŵr gwastraff gan un cwmni carthffosiaeth i garthffosydd cwmni carthffosiaeth arall.

**Swmp-wasanaeth**: Gall NAV ddarparu ei seilwaith ei hun ar y safle, ond mae'n dibynnu ar swmp-gyflenwad o ddŵr, neu swmp-ryddhad o ddŵr gwastraff gan neu i rwydwaith cwmni dŵr sydd eisoes yn gweithredu. Mae'r NAV yn dal i wasanaethu cwsmeriaid terfynol, ond mae'r NAV yn talu'r cwmni dŵr sydd eisoes yn gweithredu am swmp-wasanaethau.


**Ymgwymerwr**: cwmni a benodir o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r holl daliadau sy'n gymwys i Benodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs) yn ardal gyflenwi Dŵr Cymru a dylid ei darllen ar y cyd â Chanllawiau NAV y Cwmni sydd ar gael **yma**.

### Ardal gyflenwi'r Cwmni

Mae'r Cwmni'n cyflenwi dŵr a charthffosiaeth yn yr ardal a ddangosir ar y map isod.



## 2. Sut i gysylltu â ni

### Ffôn

0800 260 5053 (24 awr)

### Ar-lein

<https://wholesale.dwrcymru.com/cy-gb>

### E-bost

WholesaleServiceCentre@dwrcymru.com

### Post

Dŵr Cymru  
Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu  
Blwch SP 3164  
Caerdydd  
CF30 OFF

Ein horiou swyddfa ar gyfer derbyn gohebiaeth yw rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc)

## 3. Sut i dalu

### Taliad BACS

Cod didoli: 52-21-07  
Rhif y cyfrif: 01500007

### BACS o dramor

Rhif IBAN:  
GB51 NWBK 5221 0701 5000 07  
Rhif BIC: NWBK GB 21 22X

Cofiwch gynnwys eich rhif cyfeirnod cwsmer wrth wneud eich taliad.

## 4. Treth ar Werth

Caiff TAW ei hychwanegu at daliadau cyflenwi dŵr (gan gynnwys dŵr ar gyfer adeiladu) i'r NAVs. Pan goiff TAW ei chodi, caiff ei chodi yn unol â'r gyfradd bresennol adeg anfon yr anfoneb neu wneud y blaendaliad.

Caiff TAW ei hychwanegu at yr holl daliadau eraill yn y ddogfen hon oni nodir fel arall.

## 5. Rhestrau taliadau eraill

### Cynllun Taliadau

Taliadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cwsmeriaid preswyl a dibreswyl.

### Dogfen Taliadau Cyfanwerthu

Taliadau ar gyfer safle cymwys y gellid ei gyflenwi â dŵr trwy awdurdodiad manwerthu cyfyngedig.

### Rhestr Taliadau Gwasanaethau Datblygwyr

Taliadau ar gyfer cysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gynorthwyo Datblygwyr.

## 6. Methodoleg codi tâl am swmp-gyflenwad ar gyfer safleoedd nas gwasanaethir

### Cwmpas

Mae'r adran hon yn cyfeirio at y taliadau parhaus ar gyfer cyflenwi gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i safleoedd NAV. Nid yw'n cwmpasu'r taliadau ar gyfer camau cyn gwneud cais neu gysylltiadau a drafodir yn Adran 9.

### Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r tariffau cyfanwerthu sy'n gymwys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026, i'w defnyddio mewn cytundebau swmp-gyflenwi presennol er mwyn cyfrifo'r taliadau ar gyfer swmp-gyflenwi gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff ym mhob safle. Dangosir y tariffau yn Nhablau 2 a 3.

Mae'r ddogfen hefyd yn darparu'r fethodoleg ar gyfer pennu taliadau safle benodol i'w defnyddio gan ddarpar ymgeiswyr sydd am wneud cais am NAV o fewn ardal Dŵr Cymru.

### Egwyddorion

Datblygwyd ein dull o gyfrifo tariffau swmp-gyflenwi i gydymffurfio â chanllawiau Ofwat ar daliadau ar gyfer swmp-gyflenwadau 'Bulk charges for new appointees - guidance on our approach and expectations' a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 a chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Canllawiau i Ofwat ar Godi Tâl am Ffioedd Datblygwyr, Ffioedd Swmp-gyflenwadau a Ffioedd Mynediad' a gyhoeddwyd yn 2017 ynghyd â rheoliadau a deddfwriaeth gymwys arall. Dangosir y fethodoleg tynnu cyfanwerthu, a gymerwyd o ganllawiau Ofwat (t.9), yn ffigur 1 yma:

Ffigur 1: Dull tynnu cyfanwerthu Ofwat



1 Mae taliadau am swmp-gyflenwi wedi'u pennu i gydymffurfio â chanllawiau presennol gan gynnwys ystyried rhestr CEPA o gostau a gaiff eu hosgoi. Hefyd, mae'r Cwmni wedi cyfrannu at weithgor Ofwat sy'n arwain y diwydiant ar daliadau am swmp-gyflenwi ar gyfer NAVs ers iddo gael ei sefydlu yn 2021. Mae'r allbynnau o'r grŵp hwn hefyd wedi cael eu hystyried wrth bennu taliadau 2025/26. Caiff y costau parhaus a gaiff eu hosgoi o'r fethodoleg codi tâl ei hun eu hadolygu'n rheolaidd pan gaiff canllawiau diwydiant newydd eu cyhoeddi gan Ofwat neu pan gaiff astudiaethau achos o'r diwydiant eu cyhoeddi.

Mae'r tariffau swmp-gyflenwad wedi'u datblygu ar sail cyfartaledd rhanbarthol o'r brig i lawr. Ar gyfer safleoedd sydd â nodweddion gweithredol gwahanol yn eu hanfod, gall y dull hwn arwain at ddiydniadau sy'n golygu nad yw'r safleoedd yn hyfyw yn economaidd. Gan gydnabod hyn, lle nad yw'r tariffau hyn yn gymwys efallai oherwydd agweddau gweithredol gwahanol unrhyw safle penodol, gellir ystyried newidiadau pwrpasol fel rhan o unrhyw drafodaethau i gytuno ar swmp-gyflenwad cyn gwneud cais.

Mae'r taliad swmp-gyflenwi ar gyfer pob safle NAV yn safle benodol a chaiff ei gyfrifo bob blwyddyn yn seiliedig ar ein tariffau cyfanwerthu cyhoeddedig a addaswyd yn unol â dull tynnu cyfanwerthu Ofwat. Mae'r broses o gyfrifo'r taliad swmp-gyflenwi yn rhan o'r broses o drafod y cytundeb swmp-gyflenwi. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo ein taliadau swmp-gyflenwi. Mae hefyd yn rhoi manylion yr elfennau allweddol a ddefnyddir i gyfrifo'r taliad swmp-gyflenwi, gan gynnwys y tariffau cyfanwerthu a'r didyniadau costau.

Mae tariffau cyfanwerthu yn cyfeirio at ddarpariaeth "safonol" o gyflenwad dŵr domestig a gwasanaethau dŵr gwastraff, h.y. dŵr yfadwy a charthffrwd cryfder domestig, draeniad dŵr wyneb a draeniad priffyrdd. Os oes gan ddatblygiad neu safle gwsmeriaid diwydiannol neu ollyngiadau elifion masnachol perthnasol, eir i'r afael â'r rhain fesul achos a cheidw Dŵr Cymru yr hawl i amrywio'r tariffau hyn yn unol â hynny.

Mae'r didyniadau costau yn cwmpasu'r costau a gaiff eu didynnu o'r tariffau cyfanwerthu i adlewyrchu'r costau a gaiff eu hosgoi gan Dŵr Cymru o ganlyniad i'r ffaith mai'r penodiad newydd sy'n cyflenwi'r safle.

## Cyfrifo taliadau safle o dariffau

### Swmp-gyflenwadau NAV presennol

Mae'r dull o drosi'r tariffau isod i'r taliadau blynyddol wedi'i nodi yn y Cytundeb Swmp-gyflenwi cymwys. Caiff y taliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod eu hanfon at y penodiad newydd yn unol â'r amserlen a nodir yn Nhabl 1 isod.

### Swmp-gyflenwadau darpar NAV

Mae'r dull o drosi'r tariffau isod i'r taliadau swmp-gyflenwi safle blynyddol yn cynnwys tri cham sy'n gysylltiedig â cham datblygu'r safle NAV:

i. **Cyn gwneud cais** – Mae'r wybodaeth a geir yn yr atodiad hwn yn galluogi darpar ymgeisydd i amcangyfrif y gost o gael swmp-wasanaeth ar gyfer unrhyw safle NAV penodol. Bydd hyn yn hysbysu'r broses o negodi'r cytundeb swmp-gyflenwi. Ceir darluniad o'r cyfrifiad yn Nhabl 4. Ceir costau eraill sy'n gysylltiedig â'r broses cyn gwneud cais yn Adran 9;

ii. **Datblygu safle** – Mae'r taliad swmp-gyflenwi yn seiliedig ar nifer yr eiddo cysylltiedig ar y safle a bydd yn newid wrth i'r safle gael ei ddatblygu. Yn ystod y broses o ddatblygu'r safle, caiff y taliad swmp-gyflenwi ei gyfrifo'n flynyddol yn seiliedig ar gwblhau rhagolygon. Gan fod y taliad swmp-gyflenwi yn seiliedig ar y broses o ddatblygu rhagolygon ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae posibilrwydd y gall y taliadau gael eu goramcangyfrif neu eu tanamcangyfrif. Y man cychwyn a dybir ar gyfer negodiadau'r cytundeb swmp-gyflenwi yw y bydd angen dull ymarfer gwirio yn ystod y cam hwn i gyfrif am gyflymder gwirioneddol y datblygiad. Bydd y dull ymarfer gwirio yn nodi sut y caiff unrhyw wahaniaethau rhwng y gyfradd ddatblygu wirioneddol a'r gyfradd ddatblygu a ragwelir eu trin; a

iii. **Safle aeddfed** – Pan fydd y safle wedi'i gwblhau bydd nifer y cysylltiadau'n gyson ac felly bydd elfen sefydlog y taliad yn hysbys. Os caiff taliad cyfeintol wedi'i bwysoli ei gyfrifo oherwydd cyfluniad y safle, caiff hyn ei adolygu bob blwyddyn.

## Amserlen ar gyfer diweddaru tariffau bob blwyddyn

Caiff y tariffau yn y ddogfen hon eu diweddaru bob blwyddyn yn unol â'r amserlen a nodir gan Ofwat yn y rheolau codi tâl cyfanwerthu fel y nodir yn Nhabl 1 isod. Caiff taliadau swmp-gyflenwi ar gyfer safleoedd NAV unigol eu diweddaru yn unol â'r amserlen yn y priod gyntundeb.

**Tabl 1: Amserlen flynyddol ar gyfer diweddaru tariffau a thaliadau cyhoeddiedig**

Mis	Gweithgarwch
Gorffennaf	Cwmpas y newidiadau – caiff unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i strwythur neu lefel y tariffau cyfanwerthu eu trafod mewn egwyddor â NAVs.
Hydref	Caiff tariffau cyfanwerthu dangosol a thaliadau NAV dangosol eu cyhoeddi a'u rhannu ag Adwerthwyr/NAVs; caiff NAVs eu hysbysu am unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg taliadau swmp-gyflenwi.
Tachwedd/Rhagfyr	Caiff tariffau eu cadarnhau a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Caiff NAVs yr effeithir arnynt eu hysbysu am unrhyw newidiadau sylweddol i'r tariffau dangosol. Cytuno ar ragolygon ar gyfer eiddo a defnydd â NAVs yn unol â chytundebau swmp-gyflenwi.
Ionawr	Caiff tariffau swmp-gyflenwi eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r tariffau cyfanwerthu sylfaenol, cyn dechrau'r flwyddyn y maent yn gymwys ynddi.

## Taliadau swmp-gyflenwi NAV

Caiff taliadau swmp-gyflenwi NAV eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg tynnu cyfanwerthu yn unol â chanllawiau Ofwat. Y tariffau sy'n ofynnol i gyfrifo taliadau swmp-gyflenwi NAV yw'r tariffau cyfanwerthu sylfaenol a'r didyniadau o dariffau cyfanwerthu sylfaenol. I'r graddau y mae gan unrhyw safle agweddau gweithredol gwahanol iawn sy'n golygu nad yw'r tariffau cyfanwerthu safonol a/neu'r didyniadau yn gymwys, gellir ystyried taliadau wedi'u teilwra fel rhan o unrhyw drafodaethau ar gyfer cytundeb swmp-gyflenwi cyn gwneud cais.



## Tariffau cyfanwerthu sylfaenol

Mae'r tariffau cyfanwerthu sylfaenol yn rhan o'r taliad "bil terfynol" i bob cwsmer a chânt eu cyfrifo fel rhan o'r broses flynyddol o bennu taliadau; nid dydynt yn benodol ar gyfer gwasanaethau swmp-gyflenwi. Mae'r tariffau perthnasol a ddefnyddir yn ein darluniad o daliadau swmp-gyflenwi wedi'u nodi yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Tariffau cyfanwerthu sylfaenol**

### Cartrefi

<b>Cyfradd Gyfeintiol</b>	<b>Dŵr</b>	<b>Carthffosiaeth – Dŵr budr yn unig</b>
Cyfradd gyfeintiol safonol	£1.9156/m <sup>3</sup>	£2.4982/m <sup>3</sup>
<b>Tariff sefydlog ar gyfer pob mesurydd</b>		
Mesurydd hyd at 25mm	£11.34	£40.37
Mesurydd 30mm	£11.34	£40.37
Mesurydd 40mm	£11.34	£40.37

### Dibreswyl

<b>Cyfradd Gyfeintiol</b>	<b>Dŵr</b>	<b>Carthffosiaeth – Dŵr budr yn unig</b>
Cyfradd gyfeintiol safonol	£1.7747/m <sup>3</sup>	£2.7266/m <sup>3</sup>
<b>Tariff sefydlog ar gyfer pob mesurydd</b>		
Mesurydd hyd at 20mm	£16.20	£50.10
Mesurydd 25mm	£99.17	£266.80
Mesurydd 30mm	£192.00	£429.10
Mesurydd 40mm	£375.55	£711.40
Mesurydd 50mm	£578.82	£1,381.88
Mesurydd 65mm	£780.37	£2,307.81
Mesurydd 80mm	£1,039.23	£3,414.83
Mesurydd 100mm	£1,238.02	£6,025.71
Mesurydd 150mm	£1,597.66	£14,035.46
Mesurydd 200mm a throsodd	£1,597.66	£25,129.37

## Didyniadau i dariffau cyfanwerthu sylfaenol

Mae Tabl 3 isod yn nodi'r didyniadau i'r tariffau cyfanwerthu sylfaenol er mwyn cyfrifo'r taliad swmp-gyflenwi.

Caiff y didyniad ar gyfer costau parhaus a chostau cyfalaf a gaiff eu hosgoi eu cyfrifo fesul cysylltiad gan nad yw'r costau sylfaenol yn amrywio yn ôl swm y dŵr a gyflenwir. Yr eithriad i hyn yw'r didyniad ar gyfer gollyngiadau dŵr ar y safle NAV yr ymdrinnir ag ef drwy addasu'r swm a gofnodir am y cyfaint a gyflenwir i'r pwynt swmp-gyflenwi. Mae'r didyniad ar gyfer gollyngiadau dŵr o 5% o ddŵr a gyflenwir i'r safle yn adlewyrchu adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael, yn benodol yr asesiadau o ollyngiadau dŵr a wneir yng Nghynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr y NAVs. Ceir rhagor o wybodaeth yn y templed costau a gaiff eu hosgoi a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

**Tabl 3: Didyniadau i dariffau cyfanwerthu sylfaenol**

Didyniadau ar gyfer cyfluniad ar y safle	Dŵr	Carthffosiaeth
Costau parhaus a gaiff eu hosgoi Asedau cyfalaf ar y safle cysylltiedig	£23.36/eiddo	£15.96/eiddo
(Adenillion cyfanwerthu a ganiateir a Dibrisiant)	£29.69/eiddo	Dd/G
Addasiad gollyngiadau dŵr ar y safle	5% o'r dŵr a gyflenwir	Dd/G

## Methodoleg ar gyfer cyfrifo taliadau swmp-gyflenwi o'r tariffau a gyhoeddwyd

Mae'r taliad swmp-gyflenwi yn daliad dwyran: taliad sefydlog yn seiliedig ar nifer yr eiddo ar y safle a thaliad amrywiadwy yn seiliedig ar swmp y dŵr a gyflenwir i'r safle wedi'i addasu i adlewyrchu gollyngiadau dŵr ar y safle. Mae'r camau isod yn dangos sut y caiff y taliadau cyfartalog wedi'u pwysoli eu cyfrifo ar gyfer pob safle. Mae Tabl 4 yn enghraifft ddarluniedig o sut mae'r fethodoleg yn gweithio'n ymarferol.

### Cam 1

#### **Cyfrifo'r taliad sefydlog wedi'i bwysoli.**

Cam 1-1 Taliad sefydlog cyfanwerthu sylfaenol – Mae'r tariff sefydlog cyfanwerthu sylfaenol gros wedi'i bwysoli yn cynnwys dwy ran: y taliad ar gyfer y mesurydd swmp-gyflenwi a'r tâl gwasanaeth ar gyfer mesuryddion ar y safle a gyfrifir o'r priod dariffau sefydlog preswyl a dibreswyl ar gyfer yr eiddo ar y safle.

Cam1-2 Didyniadau ar gyfer costau parhaus a gaiff eu hosgoi – Mae'r rhain wedi'u cyfrifo ar sail fesul eiddo felly caiff y didyniad ei gyfrifo drwy luosi'r gyfradd fesul uned â nifer yr eiddo. Mae'r gyfradd fesul uned yn seiliedig ar gostau gweithredu, cynnal a chadw a rheoli rhwydwaith lleol y cwmni ar sail fesul eiddo. Yn ystod cam datblygu'r safle, rhagolwg yw nifer yr eiddo. Gellir addasu'r tariff cyfanwerthu sylfaenol wedi'i bwysoli i adlewyrchu gwahaniaethau o'r rhagolwg mewn blynyddoedd blaenorol. Cytunir ar y fethodoleg ar gyfer hyn fel rhan o'r broses cyn gwneud cais. Dylid nodi y gall y cam hwn arwain at daliadau sefydlog negatif.

### Cam 2

#### **Cyfrifo'r taliad amrywiadwy wedi'i bwysoli.**

Cyfrifir y gyfradd gyfeintiol cyfanwerthu wedi'i phwysoli o'r gyfradd breswyl gyfanwerthu a'r gyfradd ddibreswyl safonol wedi'i phwysoli â'r priod ddefnydd a ddisgwylir.

### Cam 3

#### **Cyfrifo'r taliad swmp-gyflenwi NAV**

Cyfrifir y taliad swmp-gyflenwi NAV ar gyfer y safle o'r taliadau a gyfrifwyd yng nghamau 1 a 2 uchod. Gwneir y didyniad ar gyfer gollyngiadau dŵr ar y safle ar y cam hwn. Caiff lwfans pellach o 5% am beidio â rhyddhau dŵr yn ôl i'r garthffos ei gymhwyso hefyd er mwyn cyfrifo'r taliad dŵr gwastraff. Lle y bo'n briodol, rydym yn cadw'r hawl i fonitro'r llif a ryddheir o bryd i'w gilydd.

## Darluniad o daliadau swmp-gyflenwi

Mae Tabl 4 isod yn dangos darluniad o sut y caiff taliadau eu cyfrifo a'u hodennill ar gyfer swmp-gyflenwad dŵr. Mae'r safle dangosol yn cynnwys 250 eiddo preswyl a 10 eiddo dibreswyl. Ar ôl gollyngiadau dŵr, rhagwelir y bydd y defnydd preswyl yn 25 Ml a rhagwelir y bydd y defnydd dibreswyl yn 2 Ml. Mae'r darluniad yn seiliedig ar y tariff carthffosiaeth dŵr budr yn unig gan na fyddai gan y mwyafrif o ddatblygiadau newydd gysylltiad dŵr wyneb. Caiff y lwfans safonol o 5% am beidio â rhyddhau dŵr yn ôl i'r garthffos ei gymhwyso i'r rhagolwg defnydd er mwyn cyfrifo'r taliad dŵr gwastraff cyfeintiol.

## Cam 1-1 Cyfrifo'r taliad sefydlog wedi'i bwysoli - tariff cyfanwerthu sylfaenol

**Tabl 4a: Darluniad o'r cyfrifiad a'r defnydd o daliadau swmp-gyflenwi NAV – Dŵr**

		Uned	Symiau a Thariffau	Taliadau Sefydlog
<b>Taliadau eiddo wedi'u pwysoli</b>				
A	Eiddo preswyl			
(1)	Nifer yr eiddo preswyl y codir tâl arnynt y flwyddyn nesaf	Nr	250	
(2)	Tâl mesurydd preswyl cyfanwerthu	£	11.34	
(1)*(2)	Taliadau gwasanaeth preswyl	£		2,835.00
B	Eiddo dibreswyl			
(3)	Nifer yr eiddo dibreswyl y codir tâl arnynt y flwyddyn nesaf	Nr	10	
(4)	Tâl mesurydd dibreswyl cyfanwerthu	£	16.20	
(3)*(4)	Taliadau gwasanaeth dibreswyl	£		162.00
	Cyfunol			
	Cyfanswm y cysylltiadau a chyfanswm y tâl sefydlog		260	2,997.00
<b>A+B</b>	<b>Cyfanswm y tâl sefydlog sylfaenol</b>	<b>£</b>		<b>2,997.00</b>

**Cam 1-2: Cyfrifo'r tâl sefydlog wedi'i bwysoli - Didyniadau ar gyfer costau ar y safle**

	<b>Uned</b>	<b>Symiau a Thariffau</b>	<b>Taliadau Sefydlog</b>
Didyniad ar gyfer costau ar y safle			
(1)+(3)	Nifer y cysylltiadau	Nr	260
	Costau ar y safle fesul cysylltiad i'w didynnu	£	23.36
<b>C</b>	Didyniad ar gyfer costau parhaus ar y safle		6,073.60
Didyniad ar gyfer WACC a dibrisiant asedau ar y safle			
(1)+(3)	Nifer y cysylltiadau	Nr	260
	Costau ar y safle fesul cysylltiad i'w didynnu	£	29.69
<b>D</b>	Didyniad ar gyfer tâl cyfalaf ar y safle	£	7,719.40
Didyniadau Swmp-gyflenwi			
<b>C+D</b>	<b>Cyfanswm y didyniadau ar y safle</b>	<b>£</b>	<b>13,793.00</b>

## Cam 2: Cyfrifo'r taliad amrywiadwy wedi'i bwysoli

		Uned	Symiau a Thariffau	Taliadau Cyfeintiol
<b>Taliadau Cyfeintiol</b>				
(Mae'r cyfrifiad o'r gyfradd gyfeintiol wedi'i phwysoli yn defnyddio cyfeintiau wedi'u haddasu ar gyfer gollyngiadau dŵr ar y safle a lwfans am beidio â rhyddhau dŵr yn ôl i'r garthffos)				
	Cyfaint o ddŵr preswyl a ragwelir	m <sup>3</sup>	25,000	
	Tâl cyfeintiol preswyl cyfanwerthu	£/m <sup>3</sup>	1.9156	
E	Refeniw preswyl cyfeintiol sylfaenol	£		47,890.00
	Cyfaint o ddŵr dibreswyl a ragwelir	m <sup>3</sup>	2,000	
	Tâl cyfeintiol dibreswyl cyfanwerthu	£/m <sup>3</sup>	1.7747	
	Refeniw dibreswyl cyfeintiol sylfaenol	£		3,549.40
F	Defnydd a refeniw cyfunol	m <sup>3</sup>	27,000	51,439.40
<b>E+F</b>	<b>Cyfradd gyfeintiol wedi'i phwysoli</b>	<b>£/m<sup>3</sup></b>		<b>1.9052</b>

### Cam 3: Cyfrifo'r tâl swmp-gyflenwi

		£	£
<b>Taliadau sefydlog</b>			
Tâl sylfaenol	Cam 1 - 1	2,997.00	
Didyniadau	Cam 1 - 2	13,793.00	
Tâl sefydlog swmp-gyflenwi			(10,796.00)
<b>Tâl cyfeintiol</b>			
		m <sup>3</sup>	£
Cyfaint a gyflenwir i'r safle		28,421	
Addasiad gollyngiadau dŵr (5%)		(1,421)	
Dŵr a gyflenwir i eiddo		27,000	
Cyfradd gyfeintiol	Cam 2		1,9052
Tâl cyfeintiol			51,440.40
<b>Tâl swmp-gyflenwi</b>			<b>40,644.40</b>

## Cam 1-1 Cyfrifo'r taliad sefydlog wedi'i bwysoli - tariff cyfanwerthu sylfaenol

**Tabl 4b: Darluniad o'r cyfrifiad a'r defnydd o daliadau swmp-gyflenwi NAV – Dŵr gwastraff**

		Uned	Symiau a Thariffau	Taliadau Sefydlog
<b>Taliadau eiddo wedi'u pwysoli</b>				
Taliadau Sefydlog				
A	Eiddo preswyl			
(1)	Nifer yr eiddo preswyl y codir tâl arnynt y flwyddyn nesaf	Nr	250	
(2)	Tâl mesurydd preswyl cyfanwerthu	£	40.37	
(1)*(2)	Taliadau gwasanaeth preswyl	£		10,092.50
B	Eiddo dibreswyl			
(3)	Nifer yr eiddo dibreswyl y codir tâl arnynt y flwyddyn nesaf	Nr	10	
(4)	Tâl mesurydd dibreswyl cyfanwerthu	£	50.10	
(3)*(4)	Taliadau gwasanaeth dibreswyl	£		501
Cyfanswm				
	Cyfanswm y cysylltiadau a chyfanswm y tâl sefydlog		260	10,593.50
<b>A+B</b>	<b>Cyfanswm y tâl sefydlog sylfaenol</b>		<b>£</b>	<b>10,593.50</b>



## Cam 1-2: Cyfrifo'r tâl sefydlog wedi'i bwysoli - Didyniadau ar gyfer costau ar y safle

		Uned	Symiau a Thariffau	Taliadau Sefydlog
Didyniad ar gyfer costau ar y safle				
(1)+(3)	Nifer y cysylltiadau	Nr	260	
	Costau ar y safle fesul cysylltiad i'w didynnu	£	15.96	
C	Didyniad ar gyfer costau parhaus ar y safle			4,149.60
Didyniad ar gyfer WACC a dibrisiant asedau ar y safle				
(1)+(3)	Nifer y cysylltiadau	Nr		
	Costau ar y safle fesul cysylltiad i'w didynnu	£	N/A	
D	Didyniad ar gyfer tâl cyfalaf ar y safle	£		N/A
Didyniadau Swmp-gyflenwi				
<b>C+D</b>	<b>Cyfanswm y didyniadau ar y safle</b>	<b>£</b>		<b>4,149.60</b>

## Cam 2: Cyfrifo'r taliad amrywiadwy wedi'i bwysoli

	Uned	Symiau a Thariffau	Taliadau Cyfeintiol
<b>Taliadau Cyfeintiol</b>			
(Mae'r cyfrifiad o'r gyfradd gyfeintiol wedi'i phwysoli yn defnyddio cyfeintiau wedi'u haddasu ar gyfer gollyngiadau dŵr ar y safle a lwfans am beidio â gollwng dŵr yn ôl i'r garthffos)			
	Cyfaint o ddŵr preswyl a ragwelir	m <sup>3</sup>	23,750
	Tâl cyfeintiol preswyl cyfanwerthu	£/m <sup>3</sup>	2.4982
E	Refeniw preswyl cyfeintiol sylfaenol	£	59,332.25
	Cyfaint o ddŵr dibreswyl a ragwelir	m <sup>3</sup>	1,900
	Tâl cyfeintiol dibreswyl cyfanwerthu	£/m <sup>3</sup>	2.7266
	Refeniw dibreswyl cyfeintiol sylfaenol	£	5,180.54
F	Defnydd a refeniw cyfunol	m <sup>3</sup>	25,650
<b>E+F</b>	<b>Cyfradd gyfeintiol wedi'i phwysoli</b>	<b>£/m<sup>3</sup></b>	<b>2.5151</b>

### Cam 3: Cyfrifo'r tâl swmp-gyflenwi

		£	£
<b>Taliadau sefydlog</b>			
Tâl sylfaenol	Cam 1 - 1	10,593.50	
Didyniadau	Cam 1 - 2	(4,149.60)	
Tâl sefydlog swmp-gyflenwi			6,443.90
<b>Tâl cyfeintiol</b>			
		m <sup>3</sup>	£
Cyfaint a gyflenwir i'r safle		28,421	
Addasiad gollyngiadau dŵr (5%)		(1,421)	
Dŵr a gyflenwir i eiddo		27,000	
Lwfans am beidio â gollwng dŵr yn ôl i'r garthffos (5%)		(1,350)	
		25,650	
Cyfradd gyfeintiol	Cam 2		2.5151
Tâl cyfeintiol			64,512.32
<b>Tâl swmp-gyflenwi</b>			<b>70,956.22</b>

## 7. Methodoleg codi tâl am swmp-gyflenwad ar gyfer safleoedd defnyddwyr mawr

Pan gwneir cais am delerau sy'n seiliedig ar bris ac nad ydynt yn seiliedig ar bris cytundeb swmp gwasanaeth ar y cam cyn gwneud cais, bydd y pris swmp-gyflenwi yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar adeg y cais a gall fod yn agored i newid. Bydd y tâl swmp-gyflenwi yn seiliedig ar y tariff diwydiannol cyfanwerthu priodol fel y nodir isod.

### 7.1 Tariff diwydiannol dŵr yfadwy

Mae'r tariff diwydiannol dŵr yfadwy yn cynnwys sawl band sy'n adlewyrchu defnydd blynyddol. Mae Tabl 5 isod yn dangos y tariffau defnyddiwr mawr dŵr cyfanwerthu ar gyfer pob un o'r pum band cyflenwi.

Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a ddefnyddir rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 ac yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn;
- Tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer pob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (fel y dangosir yn Nhabl 6 isod); a'r
- Tâl cyfeintiol ar gyfer yr holl ddŵr a ddefnyddir.

#### Tabl 5

Mae'r ail golofn yn nodi'r defnydd blynyddol lle byddai'r band yn fwyaf economaidd i'r cwsmer.

Tariff	Defnydd dangosol (Ml/y flwyddyn)	Tâl sefydlog (£)	Tâl cyfeintiol (£/m <sup>3</sup> )
Safonol	<50		1.7747
Band 1	50 - 99	25,858.90	1.2576
Band 2	100 - 249	31,515.17	1.2010
Band 3	250 - 499	47,563.87	1.1368
Band 4	500 - 999	96,193.05	1.0396
Band 5	>1000	184,851.10	0.9509

Bydd tâl gwasanaeth mesuredig safonol yn daladwy ar gyfer pob mesurydd (Gweler tabl 6)

**Tabl 6**

Mae'r tâl gwasanoeth mesuredig cyfanwerthu safonol blynyddol yn gymwys i bob mesurydd ac mae'n seiliedig ar faint enwol y mesurydd fel a ganlyn:

<b>Maint y mesurydd (mm)</b>	<b>Dŵr (£)</b>	<b>Carthffosiaeth (£)</b>	<b>Carthffosiaeth - Dŵr budr yn unig (£)</b>
Hyd at 20mm	16.20	122.51	50.10
25mm	99.17	394.36	266.80
30mm	192.00	556.66	429.10
40mm	375.55	831.83	711.40
50mm	578.82	1,502.29	1,381.88
65mm	780.37	2,428.23	2,307.81
80mm	1,039.23	3,535.25	3,414.83
100mm	1,238.02	6,146.12	6,025.71
150mm	1,597.66	14,155.89	14,035.46
200mm a throsodd	1,597.66	25,249.79	25,129.37

## 7.2 Tariff diwydiannol dŵr anyfadwy

Mae'r tariff diwydiannol dŵr anyfadwy ar gael ar gyfer cyflenwadau o ddŵr wedi'i drin yn rhannol a dŵr crai yn dibynnu a yw'r cyflenwad yn derbyn unrhyw driniaeth ai peidio. Mae Tabl 7 isod yn dangos y tariffau cyfanwerthu dŵr anyfadwy.

Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a ddefnyddir rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 ac yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn;
- Tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer pob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (gweler tabl 6 uchod); a'r
- Tâl cyfeintiol ar gyfer yr holl ddŵr a ddefnyddir

### Tabl 7

Mae'r ail golofn yn nodi'r defnydd blynyddol lle byddai'r band yn fwyaf economaidd i'r cwsmer.

Tariff	Defnydd (MI y flwyddyn)	Tâl sefydlog (£)	Tâl cyfeintiol (£/m <sup>3</sup> )
Dŵr wedi'i drin yn rhannol	< 50		1.6600
Dŵr crai	< 50		1.5449
Dŵr wedi'i drin yn rhannol	> 50	56,071.54	0.5971
Dŵr crai	> 50	57,261.70	0.4572

## 7.3 Tariff diwydiannol carthffosiaeth

Mae'r tâl tariff diwydiannol carthffosiaeth yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn (sy'n cynnwys tâl sefydlog blynyddol ar gyfer y mesurydd cyntaf)
- Tâl sefydlog ychwanegol ar gyfer pob mesurydd ychwanegol yn seiliedig ar faint y mesurydd (gweler tabl 6)
- Tâl cyfeintiol ar gyfer yr holl ddŵr a ddefnyddir

### Tabl 8

Tariff	(£)
Tâl sefydlog – Gwasanaeth Llawn	42,082.86
Tâl sefydlog – Dŵr budr yn unig	17,997.23
Tâl cyfeintiol – Gwasanaeth llawn fesul m <sup>3</sup>	2.6741
Tâl cyfeintiol – Dŵr budr yn unig fesul m <sup>3</sup>	2.6741

## 8. Methodoleg codi tâl am swmp-gyflenwad ar gyfer safleoedd NAV o dan y meini prawf cydsynio

Pan gwneir cais am delerau sy'n seiliedig ar bris ac nad ydynt yn seiliedig ar bris cytundeb swmp-gyflenwad ar y cam cyn gwneud cais, bydd y pris swmp-gyflenwi yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar adeg y cais a gall fod yn agored i newid. Bydd y tâl swmp-gyflenwi yn seiliedig ar y Tariff Cyfanwerthu Safonol fel y nodir isod neu'r Tariffau Diwydiannol uchod os bydd y safle'n defnyddio mwy na 50MI y flwyddyn o ddŵr neu'n rhyddhau mwy na 100MI o garthffosiaeth y flwyddyn.

### 8.1 Taliadau mesuredig preswyl cyfanwerthu safonol

**Tabl 9**

Tariff	Dŵr (£)	Carthffosiaeth (£)
Cyfradd gyfeintiol safonol fesul m <sup>3</sup>	1.9156	
Cyfradd gyfeintiol safonol – Gwasanaeth llawn fesul m <sup>3</sup>		2.4982
Cyfradd gyfeintiol safonol – Dŵr budr yn unig fesul m <sup>3</sup>		2.4982

Bydd tâl gwasanaeth blynyddol yn gymwys ar gyfer pob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd fel y nodir isod.

**Tabl 10**

Maint y mesurydd (mm)	Dŵr (£)	Carthffosiaeth (£)	Carthffosiaeth - Dŵr budr yn unig (£)
Hyd at 25mm	11.34	82.67	40.37
30mm	11.34	82.67	40.37
40mm	11.34	82.67	40.37

## 8.2 Taliadau mesuredig cyfannwerthu dibreswyl safonol

**Tabl 11**

Tariff	Dŵr (£)	Carthffosiaeth (£)
Cyfradd cyfeintiol safonol fesul m <sup>3</sup>	1.7747	
Cyfradd cyfeintiol safonol – Gwasanaeth llawn fesul m <sup>3</sup>		2.7266
Cyfradd cyfeintiol safonol – Dŵr budr yn unig fesul m <sup>3</sup>		2.7266

Codir tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer pob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd fel y gwelir isod.

**Tabl 12**

Maint y mesurydd (mm)	Dŵr (£)	Carthffosiaeth (£)	Carthffosiaeth – dŵr budr yn unig (£)
Hyd at 20mm	16.20	122.51	50.10
25mm	99.17	394.36	266.80
30mm	192.00	556.66	429.10
40mm	375.55	831.83	711.40



## 9. Rhestr taliadau ceisiadau NAV

### 9.1 Datblygiad arfaethedig

Bydd y Cwmni'n darparu'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r swmp-wasanaeth a gynigir neu fel gwasanaeth unigol os bydd y Cwsmer yn gofyn am hynny. Y tâl i adolygu Datblygiad Arfaethedig yw £97.48 plws TAW.

### 9.2 Dylunio peirianeg pwynt cysylltu neu ryddhau

Caiff datrysiad peirianeg manwl ei greu ar gyfer y cysylltiad neu gysylltiadau. Bydd blaendal yn ofynnol, a gaiff ei ddiwynnu o gost derfynol y cynllun. Cost y blaendal yw £2,500 plws TAW.

### 9.3 Modelu hydrolog

Bydd tâl o £250 plws TAW yn daladwy i baratoi cost modelu hydrolog bwrpasol. Bydd yr amcangyfrif modelu yn nodi cwmpas a chost yr ymarfer modelu sydd ei angen fesul achos unigol. Os caiff yr amcangyfrif ei dderbyn, y cam nesaf fydd cyfarwyddo Dŵr Cymru i ymgymryd â'r astudiaeth modelu hydrolog. Mae amcangyfrifon modelu yn ddilys am chwe mis.

### 9.4 Arolygu cysylltiadau carthffosiaeth

Goruchwyllo cysylltiadau carthffosiaeth:

Cysylltiadau â charthffosydd: gwasanaethu 1-25 eiddo Goruchwyliaeth yn ystod oriau swyddfa 8.30am i 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener	£283.94
Cysylltiadau â charthffosydd: gwasanaethu 26+ eiddo Goruchwyliaeth yn ystod oriau swyddfa 8.30am i 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener	£385.73
Cysylltiadau â charthffosydd Goruchwyliaeth y tu allan i oriau swyddfa	Pris ar Gais

## 9.5 Taliadau seilwaith

Mae'r taliadau seilwaith ar gyfer cyflenwad at ddibenion domestig yn daladwy o dan Adran 146 o'r Ddeddf ac Amod Trwydded C (fel y'i haddaswyd) o Offeryn Penodi'r Cwmni.

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar y systemau dŵr a charthffosiaeth a gall hyn olygu y bydd angen gwneud gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal ag unrhyw dâl cysylltiad dŵr neu garthffosiaeth a/neu dâl archebu, codir tâl seilwaith hefyd am gysylltiad dŵr newydd a thâl seilwaith am gysylltiad carthffosiaeth newydd.

Bydd taliadau seilwaith yn daladwy ar ôl cysylltu pob cyflenwad dŵr fel y nodir yn y cytundebau swmp-wasanaeth. Bydd taliadau yn gymwys ar gyfer pob gwasanaeth a ddarperir; lle y darperir cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth, bydd y ddau daliad seilwaith yn daladwy ar y cam hwn. Os nad oes gwasanaethau carthffosiaeth yn cael eu darparu i eiddo, yna ni fydd unrhyw daliadau seilwaith carthffosiaeth yn daladwy.

Gall y taliadau hyn fod yn daladwy hefyd pan fydd safle wedi'i ailddatblygu a bod yr ailddatblygiad hwnnw yn golygu bod galw'r safle yn fwy nag yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae taliadau seilwaith y tu hwnt i gwmpas TAW.

Codir y taliadau safonol isod ar gyfer eiddo preswyl safonol:

<b>Dŵr</b>	£541.00
<b>Carthffosiaeth</b>	£541.00

## Lluosyddion Perthnasol

Y tâl ar gyfer datblygiad fflatiau gyda mesurydd unigol fesul fflat fydd un tâl safonol fesul fflat.

Caiff taliadau ar gyfer datblygiad fflatiau a wasanaethir gan swmp-gyflenwadau mesuredig ac ar gyfer endidau dibreswyl eu cyfrifo drwy luosi'r tâl safonol uchod gyda'r lluosydd perthnasol. Caiff y lluosydd perthnasol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr ar y safle a gyflenwir a'i rannu â 24. Y rhif hwnnw neu 1 (pa un bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

Y tâl ar gyfer datblygiadau fflatiau gyda mesurydd unigol fydd 1 tâl safonol fesul fflat.

<b>Math o Eiddo</b>	<b>Math o Ddefnydd</b>	<b>Taliadau ar gyfer Cysylltiadau Newydd Lluosydd Perthnasol</b>	<b>Credyd sydd ar gael os yw'r Eiddo yn Wag &lt; 5 Mlynedd Lluosydd Perthnasol</b>
Preswyl	Domestig	1	1
Dibreswyl	Domestig	Yn seiliedig ar unedau llwytho	Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol

## Unedau llwytho

Os oes gan eiddo ddefnydd domestig ac nad yw'r cysylltiad yn gysylltiad domestig safonol nac yn gysylltiad domestig mwy, defnyddir unedau llwytho i bennu'r Lluosydd Perthnasol trwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.

Ffritiad dŵr	Unedau Llwytho
Seston fflysio toiled	2
Basn ymolchi mewn tŷ	1.5
Basn ymolchi mewn man arall	3
Bath â thapiau maint 20mm	10
Bath â thapiau sy'n fwy nag 20mm	22
Cawod	3
Sinc â thapiau 15mm	3
Sinc â thapiau sy'n fwy na 15mm	5
Tap chwistrellu	0.5
Bidet	1.5
Offer domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned lwytho fesul tŷ)	3
Offer cymunedol neu fasnachol	10
Unrhyw ffritiad dŵr neu allfa arall (gan gynnwys tap ond nid troethfa na meddalydd dŵr)	3

### Nodiadau

1. Mae cyfeiriadau at unrhyw ffritiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllunio neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffritiad hwnnw.
2. Mae bath yn cynnwys bath trobwill a Jacuzzi.
3. Mae peiriannau domestig yn golygu peiriannau (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn tŷ.
4. Mae peiriannau cymunedol neu fasnachol yn golygu peiriannau (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).

## Credydau tâl seilwaith

Pan ailddatblygir safle a bod cysylltiadau wedi bodoli ar y safle o fewn pum mlynedd cyn gwneud cysylltiad parhaol newydd cyntaf y datblygiad newydd, gellir gostwng cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle.

Caiff nifer y safleoedd domestig a oedd yn bodoli ac a oedd â chysylltiad dŵr ar y safle yn ystod y pum mlynedd, neu yn achos safleoedd dibreswyl sydd wedi cael mesurydd, nifer y credydau sy'n ddyledus yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog o ddŵr yn y datblygiad blaenorol yn ystod y pum mlynedd, ei didynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

Bydd lluosif'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Gwneir gostyngiad tebyg o ran cysylltiadau carthffosioeth sydd eisoes yn gwasanaethu'r safle.

Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir unrhyw dâl seilwaith arno, gellir ei gyfeirio at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat).

## 10. Taliadau eraill ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir

### 10.1 Darparu cyflenwad cymorth

Gall y Cwmni ddarparu Cyflenwad Cymorth yn achos digwyddiad heb ei gynllunio ar Rwydwaith Dosbarthu'r Penodiad Newydd sy'n golygu na ellir defnyddio'r cyflenwad dŵr.

Eitem	Tâl
Darparu dŵr gan ddefnyddio tanceri, tanceri dŵr a phaledi brys os ydynt ar gael i'w defnyddio. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus.	Pris ar gais + TAW



Dŵr Cymru  
Welsh Water

[dwrcymru.com](http://dwrcymru.com)